

Ysgol Gymraeg Henllan
Ffordd Dinbych
Henllan
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 5AW

12/10/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Henllan yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac un flaenoriaeth o gynllun gwella cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu

- Fel rhan o weledigaeth glir y pennaeth, mae'n cynnwys yr athrawon yn gyson wrth graffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn golygu eu bod yn adnabod y disgyblion mwy abl yn gynnar ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu pwrpasol ac ysgogol ar eu cyfer sy'n ymateb yn dda i'w hanghenion.
- Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol ag ysgolion cyfagos i rannu arferion effeithiol a chynllunio gweithgareddau dysgu er mwyn diwallu anghenion dysgu pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwy abl. Maent yn darparu heriau pwrpasol yn yr ardaloedd dysgu ac mewn gweithgareddau ysgogol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl a chreadigol yn fwriadus.
- Mae staff yn bachu ar gyfleoedd rheolaidd i gynnwys disgyblion mewn cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion sydd â thalentau penodol i ddatblygu eu medrau ymhellach.
- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys grantiau, i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion mwy abl ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson

- Fel rhan o'r trefniadau hunanwella, mae'r pennaeth yn cynnwys y staff yn bwrpasol wrth graffu ar waith disgyblion a gwerthuso effaith yr adborth a roddir iddynt er mwyn eu cefnogi i wella eu gwaith yn gyson. Trwy hyn, mae'r pennaeth wedi cydweithio'n fwriadus â'r staff i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer gwella'r adborth llafar a gynigir gan athrawon er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ymhellach.
- Mae athrawon wedi cymryd rhan flaenllaw wrth ddiweddarau'r polisi a'r dulliau adborth a marcio. Mae'r trefniadau bellach yn rhoi pwyslais cadarn ar ansawdd adborth llafar staff ac ar ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrir ar eu dysgu, gan adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu gwaith.
- Mae staff yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol buddiol, gan gynnwys rhannu ac efelychu arferion effeithiol â'i gilydd ac athrawon mewn ysgolion cyfagos. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at gysondeb ac ansawdd yr adborth a ddarperir i ddisgyblion.
- Mae'r disgyblion hyn yn gwneud defnydd effeithiol o'r adborth a roddir gan staff er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. Maent hefyd yn defnyddio'r meini prawf yn bwrpasol i gynnig adborth adeiladol ar waith ei gilydd.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632127>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.